

CANOLFAN Y CELFYDDYDAU ABERYSTWYTH ARTS CENTRE

Press Release
Datganiad i'r Wasg

Stitched Voices

Lleisiau wedi eu Pwytho

Oriel 1, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth

25 Mawrth - 13 Mai 2017

Nos Sadwrn 25 Mawrth, 6pm: Lansio'r Arddangosfa



Delwedd: Cacerolazo / *Women banging their pots*, Ffotograff Martin Melaugh, Cwrteisi Amgueddfa Oshima Hakko

© Casgliad Tecstiliau Gwrthdaro

Yn grefftus, yn bwerus ac yn lleisiol, mae *Lleisiau wedi eu Pwytho* - sy'n cael ei lansio ar 25 Mawrth, yn arddangosfa newydd unigryw o decstiliau gwrthdaro a phrotest yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth, mewn partneriaeth â'r Casgliad Tecstiliau Gwrthdaro ac Adran Wleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth. Gwrthsafiad yn erbyn anghyfiawnder a gorthrwm, a chofio'r meirw a'r diflanedig mewn gwrthdrawiadau ac unbenaethau treisiol, yw prif themâu'r *arpilleras* (tecstiliau tri-dimensiwn), y cadachau poced brodiog a'r baneri protest pwythog a ddangosir yn Oriel 1. Wedi eu crefftio mewn gwahanol rannau o'r byd, mae'r casgliad yn cynnwys baneri protest a chydgefnogaeth o Gymru, *arpilleras* yn erbyn artaith ac unbennaeth o Chile, cadachau poced brodiog yn cofio'r meirw a'r diflanedig yn sefyllfa bresennol Mecsico o drais ac anghosbedigaeth, a phortreadau mewn tecstiliau o'r 'Helyntion' yng Ngogledd Iwerddon.

Dywed curadur *Lleisiau wedi eu Pwytho*, Roberta Bacic, sy'n ddarlithydd, ymchwilydd ac yn adfocad dros hawliau dynol:

*"Yn defnyddio iaith decstil drylwyr mewn arpilleras a chwiltiau, mae themâu tystiolaeth, gwrthsafiad, cofio a gwydnwch yn dod at ei gilydd yn yr arddangosfa **Lleisiau wedi eu Pwytho** er mwyn denu sylw at wrthdaro ac ymyriadau ag hawliau dynol mewn gwahanol rannau o'r byd."*

Cynrychiolir lleisiau Cymreig o weithredaeth a chydgefnogaeth ar ffurf baneri protest yn erbyn Apartheid yn Ne Affrica, a wnaethpwyd gan Grŵp Gwrth-Apartheid Aberystwyth yn y 1980au, ac yn erbyn technoleg mewn rhyfel cyfoes, wedi eu pwytho gan y gweithredwyr heddwch Thalia ac Ian Campbell. Mae'r croglun "Continuum" gan Eileen Harrisson, myfyrwraig PhD yn Ysgol Gelf Prifysgol Aberystwyth, yn delio gyda phrofiadau personol a theuluol yn ystod yr 'Helyntion' yn Belfast ac mewn cysylltiad â'r ddau Ryfel Byd.

Comisiynwyd yr arddangosfa gan dîm o ymchwilydd yn yr Adran Wleidyddiaeth Ryngwladol, sy'n dymuno hyrwyddo crefftau fel archifau o leisiau sy'n aml yn cael eu gwthio i'r cyrion. Dywed y Dr Berit Bliesemann de Guevara, Darlennydd mewn Adeiladu Heddwch:

*"Yn y byd academaidd, 'does dim llawer o le ar gyfer tecstiliau neu grefftau. Mae popeth yn ymwneud â thestunau ysgrifenedig, dogfennau, adroddiadau. Ac eto wrth weld **Lleisiau wedi eu Pwytho**, rhaid i chi gydnabod y lleisiau ar y cyrion. Mae'r tecstiliau hyn a'r straeon y maent yn eu hadrodd yn ein helpu i ddeall gwleidyddiaeth fel profiad bob dydd."*

I gydfynd â'r arddangosfa liwgar a mynegiannol o decstiliau gwrthdaro a phrotest, ceir rhaglen o weithgareddau sy'n cynnwys gweithdai tecstiliau, brodio cydgefnogaeth, darlithoedd, trafodaethau o amgylch y bwrdd, a sesiynau cerddoriaeth a barddoniaeth. Mae'r wyl ffilmiau Cymru a'r Byd yn Un, sy'n dechrau ar 24 Mawrth, wedi ymroddi un gyfres o ffilmiau 'Lleisiau Gwrthsafiad' - i faterion sy'n codi yn y tecstiliau. Cynhelir arddangosfa gysylltiedig, "Olion traed Cof", yn Nhŷ Celf yn Aberystwyth o 3 - 8 Ebrill.

Gweler isod y rhaglen o weithgareddau a gynhelir o dan faner *Lleisiau wedi eu Pwytho*.

24/03/2017, 5.45pm, Sinema Canolfan y Celfyddydau: “The Colours of the Mountain”; y ffilm gyntaf yng nghyfres “Lleisiau Gwrthsafiad” Gŵyl Ffilmiau Cymru a’r Byd yn Un.
Rhaglen: www.wowfilmfestival.com/en/nearby/aberystwyth

25/03/2017, Canolfan y Celfyddydau Oriol 1, : 11am-1pm: Gweithdy am ddim “Creu doli arpillera”;
6-8pm: LANSIO’R ARDDANGOSFA gyda cherddoriaeth Chileaidd

Y rhan fwyaf o ddyddiau Gwener (ewch ar-lein i weld diweddariadau), Canolfan y Celfyddydau, y tu allan neu Oriol 1 (yn dibynnu ar y tywydd): “Brodio dros Heddwch” - pwytho cydgefnogaeth ar gyfer y diflanedig a’r sawl a ddioddefodd drais ym Mecsico

Pob dydd Sadwrn, 11:30-12:30, Canolfan y Celfyddydau, Oriol 1: Taith dywysedig am ddim o gwmpas yr arddangosfa “Lleisiau wedi eu Pwytho”

03 – 08/04/2017, Tŷ Celf, Aberystwyth: Arddangosfa “Olion traed Cof”

07 – 08/04/2017, Adran Wleidyddiaeth Ryngwladol: Symposiwm “Absenoldeb, Presenoldeb ac Ymgorfforiad”. Am fanylion gweler Perfformiad a Gwleidyddiaeth ryngwladol:
www.aber.ac.uk/en/ppi

10/04/2017, 7:15pm Canolfan y Celfyddydau, Oriol 1: Frankie Armstrong gyda Bright Field, cyngerdd acapella “Llais Popeth”

13/04/2017, 1:30-3:30pm, Canolfan y Celfyddydau, Oriol 1: Gweithdy am ddim i blant “Creu doliau’r Pasg”

20/04/2017, 8pm, Canolfan y Celfyddydau, Oriol 1: “Beth bynnag a ddywedwch, Dywedwch Rywbeth: Ymatebion creadigol i ‘Helyntion’ Wlster”, gyda Damian Gorman ac Eileen Harrison

02/05/2017, 6-7.30pm, Adran Wleidyddiaeth Ryngwladol, Prif Neuadd: Darlith “Hawliau Dynol, Gweddillion Dynol”, y Ddr Claire Moon (Ysgol Economeg Llundain)

05/05/2017, 2.30-4.30pm, Canolfan y Celfyddydau, Oriol 1: Gweithdy am ddim “Pwytho baner brotest”

5-6.30pm, Adran Wleidyddiaeth Ryngwladol, Prif Neuadd: Trafodaeth “Lleisiau wedi eu Pwytho: Gweithredaeth Menywod a Gwrthsafiad Crefftio”

12/05/2017, 10am-4pm, Adran Wleidyddiaeth Ryngwladol, Prif Neuadd: Gweithdy Ymchwil “Lleisiau Anghydnabyddedig: Celf a Chrefft fel Archifau Gwybodaeth Wleidyddol”. Cofrestrwch os gwelwch yn dda gyda: beb14@aber.ac.uk

DIWEDD

Nodiadau i olygyddion:

Bydd rhai o'r gwneuthurwyr yn ogystal â'r curadur yn bresennol ar wahanol adegau yn ystod yr arddangosfa a byddant ar gael ar gyfer cyfweiliadau.

Mae rhagor o wybodaeth a delweddau ar gael o Ganolfan y Celfyddydau Aberystwyth,

Jen Loffman: Ffôn: 01970 628587 E-bost: jel24@aber.ac.uk

Cyswllt yn yr Adran Wleidyddiaeth Ryngwladol: Dr Berit Bliesemann de Guevara (beb14@aber.ac.uk)

Am ragor o wybodaeth gweler hefyd gwefan y casgliad Tecstiliau Gwrthdaro:

<http://cain.ulster.ac.uk/conflicttextiles/search-quilts/fullevent/?id=157>

Mae *Lleisiau wedi eu Pwytho* yn fenter rhwng y Casgliad Tecstiliau Gwrthdaro ac Adran Wleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth, mewn cydweithrediad â Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth.